# Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, 2018
# Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum dimensiwn o ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurdeb, a Chyflawnedd. Mae hefyd yn ymdrin â materion ansawdd data penodol.

## 1. Perthnasedd

### Pwy sy'n defnyddio'r data hyn yn bennaf?

Mae'r ystadegau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth o fewn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Yr Adran Addysg yn Lloegr;
- Adrannau eraill y llywodraeth;
- Awdurdodau Lleol;
- Ysgolion;
- Estyn, Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi yng Nghymru;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru;
- Meysydd eraill o fewn Llywodraeth Cymru;
- Y gymuned ymchwil;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

### At ba bwrpas y defnyddir y data?

Caiff y data hyn eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Dyma ambell enghraifft:

- Cyngor i Weinidogion;
- Pecynnau data craidd addysg Cymru gyfan.
- Cymharu a gosod meincnodau i awdurdodau lleol ac ysgolion;
- Llywio'r broses benderfynu ynglŷn â pholisi addysg yng Nghymru;
- Helpu gyda gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

## 2. Cywirdeb

Mae'r setiau data sydd wedi'u defnyddio i baratoi'r bwletin hwn wedi'u llunio drwy gyfatebu data CYBLD o gyfrifiad Ionawr â data ynglŷn â chyrhaeddiad ar gyfer asesiadau/arholiadau a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf dilynol. Hefyd, mae data am absenoldeb o'r Cofnod Presenoldeb Disgyblion wedi'u cyfatebu â'r set ddata a gyfatebwyd.

Dim ond ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir gan awdurdodau lleol (ALlau) y mae modd defnyddio'r broses gyfatebu uchod. Mae data ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) wedi'u cynnwys yn y bwletin hwn hefyd ac fe ddarperir y rheini drwy gyfatebu data am gyrhaeddiad â data a gasglwyd ar lefel disgyblion sy'n derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol (DAHY). Wrth gyhoeddi dadansoddiadau ar sail y mathau hyn o ysgolion, bydd disgyblion sydd wedi cyrraedd o system addysg y tu allan i Gymru/Lloegr yn cael eu tynnu o grynodebau'r ysgol a'r awdurdod lleol, ond fe'u cynhwysir yn y crynodeb cyffredinol ar gyfer Cymru.

Oherwydd bod disgyblion yn symud rhwng dyddiadau cyfrifiad CYBLD / EOTAS ym mis Ionawr a'r cyfnod asesu a'r adeg y cesglir cofnodion presenoldeb, ac oherwydd bod rhai problemau wrth gyfatebu data, nid oes modd cyrraedd cwmpas llawn ar gyfer pob disgybl. Felly, efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb â'r rheini a gyhoeddwyd yn y datganiadau ystadegol "Neilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 a 3" a "Chanlyniadau Arholiadau".

Mae'r tablau isod yn dangos yr hyn y mae pob set ddata'n ei gwmpasu:

### Data CYBLD a data cyrhaeddiad (a)

| | | Nifer y disgyblion mewn: | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Set ddata a gyfatebwyd o'r Gronfa Ddata Gen | Cohort a gyhoeddwyd (b) | % a gwmpaswyd |
| **Cyfnod Sylfaen** | 2014 | 33,995 | 34,170 | 99.5 |
| | 2015 | 35,581 | 35,751 | 99.5 |
| | 2016 | 34,772 | 34,949 | 99.5 |
| | 2017 | 35,290 | 35,474 | 99.5 |
| | 2018 | 36,078 | 36,249 | 99.5 |
| **Cyfnod Allweddol 2** | 2014 | 31,670 | 31,786 | 99.6 |
| | 2015 | 32,159 | 32,286 | 99.6 |
| | 2016 | 33,051 | 33,169 | 99.6 |
| | 2017 | 33,415 | 33,541 | 99.6 |
| | 2018 | 34,172 | 34,282 | 99.7 |
| **Cyfnod Allweddol 3** | 2014 | 32,162 | 32,255 | 99.7 |
| | 2015 | 31,547 | 31,665 | 99.6 |
| | 2016 | 30,589 | 30,690 | 99.7 |
| | 2017 | 31,390 | 31,527 | 99.6 |
| | 2018 | 31,812 | 31,940 | 99.6 |
| **Cyfnod Allweddol 4** | 2014 | 33,708 | 33,947 | 99.3 |
| | 2015 | 32,580 | 32,788 | 99.4 |
| | 2016 | 31,332 | 31,533 | 99.4 |
| | 2017 | 30,618 | 30,814 | 99.4 |
| | 2018 | 29,441 | 29,672 | 99.2 |

(a) Mae cohort CA4 ar gyfer 2016 wedi'i selio ar ddisgyblion ym mlwyddyn 11. Hyd at 2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Nid yw'n cynnwys disgyblion ysgolion Annibynnol.

## Cofnod Presenoldeb Disgyblion a data cyrhaeddiad (a)

| | | Nifer y disgyblion mewn: | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Set ddata a gyfatebwyd o'r Gronfa Ddata Gen | Cohort a gyhoeddwyd (b) | % a gwmpaswyd |
| **Cyfnod Sylfaen** | 2014 | 33,823 | 34,170 | 99.0 |
| | 2015 | 35,380 | 35,751 | 99.0 |
| | 2016 | 34,583 | 34,949 | 99.0 |
| | 2017 | 35,093 | 35,474 | 98.9 |
| | 2018 | 35,825 | 36,249 | 98.8 |
| **Cyfnod Allweddol 2** | 2014 | 31,452 | 31,786 | 98.9 |
| | 2015 | 31,918 | 32,286 | 98.9 |
| | 2016 | 32,823 | 33,169 | 99.0 |
| | 2017 | 33,174 | 33,541 | 98.9 |
| | 2018 | 33,883 | 34,282 | 98.8 |
| **Cyfnod Allweddol 3** | 2014 | 31,788 | 32,255 | 98.6 |
| | 2015 | 31,204 | 31,665 | 98.5 |
| | 2016 | 30,195 | 30,690 | 98.4 |
| | 2017 | 30,980 | 31,527 | 98.3 |
| | 2018 | 31,413 | 31,940 | 98.4 |
| **Cyfnod Allweddol 4** | 2014 | 33,440 | 33,947 | 98.5 |
| | 2015 | 32,300 | 32,788 | 98.5 |
| | 2016 | 30,957 | 31,533 | 98.2 |
| | 2017 | 30,237 | 30,814 | 98.1 |
| | 2018 | 29,079 | 29,672 | 98.0 |

(a) Mae cohort CA4 ar gyfer 2016 wedi'i selio ar ddisgyblion ym mlwyddyn 11. Hyd at 2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Nid yw'n cynnwys disgyblion ysgolion Annibynnol.

## Diffiniadau'r dangosyddion

Mae **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)** yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig neu uwch mewn cyfuniad o "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu" (yn Saesneg (LIS) neu yn Gymraeg (LIC)), "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol" (DPCh) a "Datblygiad mathemategol" (DM), ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Y deilliant a ddisgwylir gan fwyafrif y disgyblion yw deilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae **Dangosydd y Pynciau Craidd (DPC)** yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg (Iaith Gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth. Y lefel a ddisgwylir gan fwyafrif y disgyblion yw lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 a lefel 5 yng Nghyfnod Allweddol 3.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae trothwyon y lefelau'n dangos swm, neu 'faint', cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC):

**Lefel 1** – swm o gymwysterau ar Lefel 1 sydd gyfwerth â swm 5 TGAU ar radd A*-G;
**Lefel 2** – swm o gymwysterau ar Lefel 2 sydd gyfwerth â swm 5 TGAU ar radd A*-C;
**Lefel 2 cynhwysol** - swm o gymwysterau ar Lefel 2 sydd gyfwerth â swm 5 TGAU ar radd A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg neu Rifedd.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio** yn cael ei chyfrifo drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau ac mae'n cynnwys pob cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo. I gael gwybod am bob cymhwyster cymeradwy, gweler Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru. Dim ond er 2010 y mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio ar gael, oherwydd dyma'r flwyddyn gyntaf iddi gael ei chyfrifo.

Cyflwynwyd y sgôr pwyntiau 9 wedi'i gapio yn 2016/17 ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau disgyblion Blwyddyn 11 o uchafswm o naw o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc penodol.

## Data am ethnigrwydd

Sylwer bod rhai o'r cohortau sy'n perthyn i gefndir ethnig yn fach iawn. Dylid gochel wrth gymharu perfformiad grwpiau sydd â nifer cymharol fach o ddisgyblion oherwydd bod canlyniadau grwpiau mor fach yn amrywio mwy o flwyddyn i flwyddyn nag y bydd canlyniadau grwpiau sy'n cynnwys nifer mwy o ddisgyblion.

Mae categori'r cefndir ethnig 'anhysbys' yn cynnwys disgyblion nad oedd data ar gael ar eu cyfer a'r rheini a ddywedodd yn benodol nad oeddent am i'w hysgolion gofnodi categori ar eu cyfer.

Nid yw disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi'u gwasgaru'n wastad drwy Gymru. Maent wedi'u crynhoi mewn pedwar awdurdod lleol, ac mewn ysgolion penodol yn yr Awdurdodau Lleol hyn. Gall y polisïau addysg sydd ar waith mewn ardaloedd o'r fath effeithio ar gyflawniad academaidd y disgyblion hynny.

Nid yw data cyflawni 'Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu' (Cymraeg) y Cyfnod Sylfaen nac asesiadau athrawon Cymraeg Iaith Gyntaf Cyfnod Allweddol 2-4 wedi'u cynnwys yn nhablau cyflawni yn ôl ethnigrwydd disgyblion oherwydd mai ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig (ac eithrio Gwyn-Prydeinig) sy'n astudio'r pwnc hwn.

Sylwer, wrth gasglu data CYBLD, fod disgyblion a'u rhieni yn cael eu hannog i ddewis y cefndir ethnig mwyaf priodol. Serch hynny er 2009, yr ysgol sydd wedi dewis cefndir ethnig ar gyfer rhwng 11 ac 16 y cant o ddisgyblion yn y cyfnodau allweddol perthnasol bob blwyddyn gan nad oedd y rhieni/disgyblion wedi dewis categori (ac nad oeddent wedi dweud yn benodol nad oeddent am i'r ysgol gofnodi un). Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni/disgyblion am y categori a ddewiswyd er mwyn iddynt ei newid os byddant yn dymuno gwneud hynny. Os na fydd y categori'n cael ei ddiwygio mae'n bosibl na fydd yn adlewyrchu'r cefndir ethnig y mae'r disgyblion yn teimlo'u bod yn perthyn iddo.

## Saesneg fel iaith ychwanegol

Bydd disgyblion yn caffael Saesneg fel iaith ychwanegol mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol gyflymder i'w gilydd. Defnyddir y disgrifiadau a nodir isod i adlewyrchu'r camau cyffredinol yn y datblygiad hwn i'w defnyddio ar '**sail ffit-gorau'** mewn modd tebyg i ddisgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gall gymryd hyd at 10 mlynedd i ddatblygu o gam A i gam E ac mae unigolion yn debygol o ddangos nodweddion mwy nag un 'cam' ar y tro. Gan amlaf, bydd angen llunio barn ynglŷn â pha gam sy'n disgrifio datblygiad iaith yr unigolion orau, ac ystyried ei oedran, ei allu ac ers faint mae'n dysgu Saesneg.

Dyma'r categorïau dilys:

**A** = Newydd i Saesneg. Efallai y bydd yn defnyddio'i iaith gyntaf ar gyfer dysgu ac at ddibenion eraill. Efallai y bydd yn cadw'n gwbl dawel yn yr ystafell ddosbarth. Efallai y bydd yn copïo/ailadrodd ambell air neu ymadrodd. Efallai y bydd yn deall rhywfaint o ymadroddion bob

dydd yn Saesneg ond nad oes ganddo fawr neu ddim llythrennedd yn Saesneg. **Mae angen cymorth sylweddol arno ym maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol.**

**B** = Caffael Cynnar**.** Efallai y bydd yn dilyn cyfathrebu cymdeithasol o ddydd i ddydd yn Saesneg ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda chymorth. Yn dechrau defnyddio Saesneg ar lafar at ddibenion cymdeithasol. Efallai y bydd yn deall cyfarwyddiadau syml ac yn gallu dilyn naratif/stori gyda chymorth gweledol. Efallai y bydd wedi datblygu rhywfaint o sgiliau ysgrifennu a darllen Efallai y bydd wedi dod yn gyfarwydd â rhywfaint o eirfa pwnc-penodol. **Mae dal angen cymorth sylweddol arno ym maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol i fanteisio ar y cwricwlwm.**

**C** = Datblygu cymhwysedd. Efallai y bydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ac yn dangos annibyniaeth cynyddol wrth wneud hynny. Mae'n gallu mynegi ei hun ar lafar yn Saesneg, ond gwelir enghreifftiau o strwythur anghywir o hyd. Bydd angen cymorth parhaus â llythrennedd, yn enwedig ar gyfer deall testun ac ysgrifennu. Efallai y bydd yn gallu dilyn cysyniadau haniaethol a Saesneg ysgrifenedig mwy cymhleth. **Mae gofyn darparu cymorth parhaus ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol er mwyn iddo fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm.**

**D** = Cymwys. Bydd ei Saesneg llafar yn datblygu'n dda, gan ei alluogi i ymwneud yn llwyddiannus â gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'n gallu darllen a deall ystod eang o destunau. Efallai y bydd ei Saesneg ysgrifenedig yn ddiffygiol o ran cymhlethdod ac yn dangos tystiolaeth achlysurol o wallau yn y strwythur. Mae angen rhywfaint o gymorth arno i ddeall gwahaniaethau cynnil o ran ystyr, i fireinio'i ddefnydd o'r Saesneg, ac i ddatblygu geirfa haniaethol. **Mae angen rhywfaint o gymorth/cymorth achlysurol arno ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol er mwyn manteisio ar ddeunyddiau a thasgau cymhleth y cwricwlwm.**

**E** = Rhugl Mae'n gallu gweithredu ar draws y cwricwlwm at lefel o gymhwysedd sy'n cyfateb i lefel disgybl sydd â'r Saesneg yn iaith gyntaf. **Mae'n gweithredu heb gymorth wrth ddefnyddio Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar draws y cwricwlwm.**

**0** = Amherthnasol.

Fel sy'n wir ynglŷn â'r data am ethnigrwydd, nid yw data cyflawni 'Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu' (Cymraeg) y Cyfnod Sylfaen nac asesiadau athrawon Cymraeg Iaith Gyntaf Cyfnod Allweddol 2-4 wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n ymwneud â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (Tablau 9 - 11) oherwydd mai ychydig iawn o ddisgyblion â chod A-E ar gyfer eu datblygiad Saesneg fel Iaith Ychwanegol sy'n astudio'r pwnc hwn.

## Data Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mae gan blant **anghenion addysgol** arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Bydd gan blant anhawster dysgu:

a) os ydynt yn cael anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r hyn a welir ymhlith mwyafrif y plant o'r un oedran.

b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math sydd fel rheol yn cael eu darparu ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol.

c) os ydynt o dan oedran ysgol gorfodol ac yn dod o fewn diffiniad a) neu b) uchod, neu y byddent yn dod o fewn y diffiniad hwnnw pe na ddarperid addysg arbennig ar eu cyfer.

Ystyr darpariaeth addysgol arbennig yw:

a) i blant dwy oed neu hŷn, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol i'r ddarpariaeth gyffredinol neu'n wahanol i'r ddarpariaeth honno ar gyfer plant o'u hoedran hwy mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (ALl), ac eithrio ysgolion arbennig, yn yr ardal.

b) i blant o dan ddwy oed, darpariaethau addysgol o unrhyw fath.

Os na fydd plant yn ymateb i'r gwahaniaethu, ac os na fyddant yn gwneud cynnydd digonol, bydd angen i'r ysgol wneud rhywbeth yn ychwanegol neu'n wahanol Disgrifir yr AAA hon sy'n seiliedig ar yr ysgol yn y cod fel *Gweithredu gan yr Ysgol* a *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. I gael gwybod rhagor ewch i: the Cod Ymafer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Mae gan awdurdodau lleol wahanol bolisïau ar gyfer cyhoeddi datganiadau anghenion addysgol arbennig felly, bydd y rhain yn amrywio ac yn wahanol i'w gilydd mewn gwahanol rannau o Gymru.

### Data o fath Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

O'r flwyddyn 2017 roedd cyfle i ysgolion a gynhelir i adrodd am gymaint o fathau o angen addysgol arbennig ar gyfer disgybl yn ôl yr angen a chafodd safle'r anghenion hynny ei dynnu. Nid yw'r 'angen mawr' a ddefnyddir mewn cyhoeddiadau cynharach bellach yn gymwys ac felly nid yw'r ffigurau'n union gymharol â blynyddoedd blaenorol.

### Data am absenoldeb

Casglwyd data am absenoldeb ar lefel disgyblion gan ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir am y tro cyntaf yn 2007/08. Felly, dylid trin y canlyniadau'n ochelgar wrth edrych ar dueddiadau hanesyddol.

Mae data cyrhaeddiad ar gyfer y rheiny sydd heb unrhyw absenoldeb wedi'i gynnwys gyda'r rhai sydd â llai na 4 y cant o absenoldeb yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

## 3. Amseroldeb a phrydlondeb

Cyhoeddwyd data cyrhaeddiad y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mis Awst 2018 a chyhoeddwyd data cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 ym mis Rhagfyr 2018. Cysylltwyd y data hwn gyda data PLASC Ionawr 2018 ac i ddata absenoldebau a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018 ar gyfer uwchradd ysgolion ac ym mis Rhagfyr 2018 ar gyfer ysgolion cynradd, i gynhyrchu'r setiau data a ddefnyddir ar gyfer yr allbwn ystadegol hwn. Yn ogystal, cysylltwyd data Cyfnod Allweddol 4 gyda data ar gyfer disgyblion a addysgir ac eithrio yn yr ysgol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, i ddangos canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer disgyblion lle mae eu prif addysg mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae'r data yn ôl rhyw wedi'i gyhoeddi eisoes gyda data cyrhaeddiad y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mis Awst 2018 a gyda data cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 ym mis Rhagfyr 2018.

## 4. Hygyrchedd ac eglurder

Cyn-gyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf yma ac wedyn cyhoeddwyd e ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwilio gwefan Llywodraeth Cymru. Eleni, er mwyn gwella hygyrchedd, cyhoeddwyd y tablau data manwl ar StatsCymru, gwasanaeth am ddim sy'n caniatáu i ddefnyddwyr weld, trin, creu a llwytho i lawr tablau o ddata dros Gymru. Yn flaenorol, cyhoeddwyd y tablau data mewn taenlen Excel.

Dolenni StatsCymru:

Cyfnod sylfaen

Cyfnod Allweddol 2

Cyfnod Allweddol 3

Cyfnod Allweddol 4

## 5. Cymaroldeb a chydlyniaeth

Ni ddylech gymharu data ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw Gyfnod Allweddol. Nid yw'n bosib cymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen gyda chanlyniadau CA1 yn Lloegr. O 2016 ymlaen nid yw Lloegr yn adrodd canlyniadau CA2 fel lefelau ond yn hytrach mae pob disgybl yn derbyn canlyniadau eu profion fel sgôr graddedig ac mae asesiadau athrawon wedi'i selio ar safonau yn y fframwaith dros dro. Nid yw Lloegr yn cyhoeddi canlyniadau CA3. Ar gyfer TGAU mae'r Erthygl Ystadegol ar 'Fesuriadau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru: Newidiadau a chymaroldeb' yn trafod cymariaethau gyda Lleogr a gweddill y DU. Nid oes modd cymharu â'r Alban oherwydd bod y strwythur cymwysterau'n wahanol. I gael gwybod rhagor neu i gael cyngor am gyfyngiadau cymariaethau rhyngwladol, anfonwch ebost at ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk.

Hyd at 2007/08, mae ystadegau Cyfnod Allweddol 4 yn cynnwys TGAU, cwrs byr TGAU, GNVQs ac NVQs yn unig. O 2008/09 ymlaen, mae'r ystadegau'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio cyn-16 oed neu 16-18 oed yng Nghymru. Mae cyflwyno'r diffiniad ehangach wedi golygu bod ystod ehangach o gymwysterau wedi'u cynnwys ac felly bod cynnydd yn y prif ddangosyddion perfformiad.

O 2017/18, yn dilyn argymhellion gan adolygiadau annibynnol a newidiadau polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru nid yw cymwysterau galwedigaethol yn y wyddoniaeth bellach yn cyfri tuag at yr elfen Gwyddoniaeth yn y mesuriadau perfformiad.

O 2016/17 mae newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) wedi effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Ceir rhagor o fanylion yn yr Erthygl ar fesuriadau perfformiad CA4 yng Nghymru a Chanlyniadau Arholiadau.

### Newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod wedi'u halinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod nhw'n gofyn llawer mwy. Yn unol â

hyn cafodd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn eu halinio â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai'r cohort o blant a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd yr un cyntaf i gael ei asesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau ar eu newydd wedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018.

Felly, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

**Cymharu data ar gyfer maint cohort bychain**

Rhoddwyd * yn lle nifer y cohort os oes llai na 5 ond mwy na sero o ddisgyblion mewn categori. Rhoddwyd * yn lle canrannau os oes llai na 50 ond mwy na sero o ddisgyblion mewn cohort.

Pwrpas hyn yw sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol mai niferoedd bach iawn sydd mewn rhai categorïau a dangos y dylid bod yn ochelgar wrth gymharu rhwng data cyrhaeddiad ar gyfer categorïau o'r fath.

## Ystadegau perthnasol a gyhoeddwyd

Mae rhagor o wybodaeth am niferoedd y disgyblion yn ôl eu cefndir ethnig a'u hanghenion addysgol arbennig i'w gweld yn natganiad ystadegau Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion.

Mae data am gyrhaeddiad i'w gweld yn Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaenol ac Asesiadau Athrawon o Bynciau Craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, Asesiadau Athrawon o Bynciau Di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chanlyniadau Arholiadau.

Mae rhagor o wybodaeth am absenoldeb mewn ysgolion i'w gweld yn Absenoldeb o Ysgolion Cynradd ac Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd.

Mae rhagor o wybodaeth am ddisgyblion sy'n cael eu Haddysg y Tu Allan i'r Ysgol i'w gweld yn Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad yn ôl cymhwysedd disgyblion i gael prydau ysgol am ddim wedi'i gynnwys yn y bwletin ar wahân am Cyraeddiadau a'r Hawl i Brydau am Ddim, gyhoeddwyd ar 8 Tachwedd 2018 a Chanlyniadau Arholiadau. Mae'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn aml wedi'i ystyried yn fodd o fesur amgylchiadau economaidd-gymdeithasol poblogaeth ysgol. Dylid nodi serch hynny, er bod cysylltiad rhwng nodweddion a pherfformiad disgyblion, bod llawer o ffactorau eraill yn effeithio ar ganlyniadau asesiadau ac arholiadau ysgolion. Bydd rhai ysgolion mewn ardaloedd di-fraint yn gwneud yn dda, ac eraill mewn ardaloedd mwy llewyrchus yn gwneud yn wael.

I gael data ar lefel ysgolion a rhagor o wybodaeth, ewch i Fy Ysgol Leol. Mae'r safle'n cynnwys cyfoeth o ddata o wybodaeth gyd-destunol, megis data am niferoedd disgyblion a'u nodweddion, i berfformiad yr ysgol, presenoldeb a data am staffio a chyllid.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:

https://llyw.cymru/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-chracteristics/?lang=cy

## Diweddariad nesaf

Ionawr 2020

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.